



Bwletin GwE



Diolch Ysgolion Thank You Schools



Rhannwch ein bwletin â thîm staff yr ysgol i gyd ac anogwch eich holl gyd-weithwyr i ymuno â'n [rhestr bostio](#).

Wythnos Ffocws Arweinyddiaeth

28 MEHEFIN - 2 GORFFENNAF 2021

Mae'r Wythnos Ffocws Arweinyddiaeth yma!

Yfory, dydd lau, 1 Gorffennaf, 'Arweinyddiaeth ar gyfer Lles' fydd y thema allweddol gyda Mary Myatt yn siaradwr allweddol.

Bydd gweithdai yn cael eu cynnal am 10:30 am. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am y gweithdai [yma](#). [Cliciwch yma am y dolenni i ymuno](#).

Bydd Dr Kevin Palmer (Dirprwy Gyfarwyddwr Addysg Llywodraeth Cymru a'r Consortia Addysg) yn gorffen yr wythnos trwy ddarparu trosolwg o'r cyfeiriad polisi cenedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth yn unol â blaenoriaethau'r llywodraeth newydd. [Cliciwch yma am y dolenni i ymuno](#).

Gobeithio y gallwch chi ymuno â ni.




CONSORTIA GWELLA YSGOLION RHANBARTHOL
REGIONAL SCHOOL IMPROVEMENT CONSORTIA



Cysylltu â GwE

Rydym yma i helpu! Rydym ar-lein ac wrth law i gefnogi ysgolion a llywodraethwyr.

Cysylltwch â ni ar post@gwegogledd.cymru ac fe atebwn cyn gynted ag y bo modd.



Gweminar: Cynllunio ar gyfer newid Cwricwlwm - Sesiwn 1

Diolch i bawb a fynychodd y gweminar 'Cynllunio ar gyfer newid Cwricwlwm – Sesiwn 1'.
Dilynwch y ddolen isod i weld y recordiad.

[Gweminar Gymraeg](#) | [Gweminar Saesneg](#)

Gweminar: 'Papurau Procio' ar y Daith Ddiwygio

Diolch i bawb a fynychodd y gweminar 'Papurau Procio' ar y Daith Ddiwygio - dilynwch y ddolen hon i weld y recordiad: [Gweminar Gymraeg](#) | [Gweminar Saesneg](#)

Dilynwch y ddolen hon i weld y 'Papurau Procio': [Cymraeg](#) | [Saesneg](#)

DIOLCH
THANK YOU



Cynnig Proffesiynol GwE

Dilynwch y [ddolen hon at Gynnig GwE](#) ar gyfer y flwyddyn 2020-2021.

Mae Cynnig GwE, sy'n cynnwys holl fanylion yr hyfforddiant datblygiad proffesiynol y mae GwE yn ei gynnis ar gyfer y flwyddyn nesaf, bellach yn fyw ar G6 [\[https://g6.gwegogled.cymru\]](https://g6.gwegogled.cymru).

Er mwyn cofrestru i fynychu'r hyfforddiant sydd wedi'i restru, bydd angen i holl staff yr ysgol greu cyfrif personol yn G6. Mae modd gwneud hynny drwy ddilyn y [ddolen hon](#) a chlicio ar y botwm 'Cofrestrwch Nawr'. Gweler y cyfarwyddiadau [yma](#).

Sicrhewch eich bod yn cofrestru ar G6 o leiaf 48 awr cyn y dyddiad cychwyn.

30/06/2021 - 09/07/2021	DYDDIAD	CYFRWNG
Datblygu Gweledigaeth a Rennir a Chynllunio ar gyfer Newid Cwricwlwm, Sesiynau 2 a 3 (Caergybi, Bodedern, Syr Thomas Jones)	30/06/2021	Cymraeg
Datblygu Gweledigaeth a Rennir a Chynllunio ar gyfer Newid Cwricwlwm, Sesiynau 2 a 3 (Syr Hugh Owen, D. Nantlle)	30/06/2021	Cymraeg
Datblygu Gweledigaeth a Rennir a Chynllunio ar gyfer Newid Cwricwlwm, Sesiynau 2 a 3 (Bryn Alyn, Clywedog, Rhosnesni)	30/06/2021	Saesneg
Datblygu Gweledigaeth a Rennir a Chynllunio ar gyfer Newid Cwricwlwm, Sesiynau 2 a 3 (Rhyl, Prestatyn, Tir Morfa)	30/06/2021	Saesneg
Datblygu Gweledigaeth a Rennir a Chynllunio ar gyfer Newid Cwricwlwm, Sesiynau 2 a 3 (Emrys ap Iwan, John Bright, Denbigh High, Plas Brondyffryn)	30/06/2021	Saesneg
Datblygu Gweledigaeth a Rennir a Chynllunio ar gyfer Newid Cwricwlwm, Sesiynau 2 a 3 (Tywyn, Bro Idris, Moelwyn, Berwyn, Ardudwy)	01/07/2021	Cymraeg
Datblygu Gweledigaeth a Rennir a Chynllunio ar gyfer Newid Cwricwlwm, Sesiynau 2 a 3 (Glan y Mor, Botwnnog, Eifionydd, Hafod Lon)	01/07/2021	Cymraeg
Datblygu Gweledigaeth a Rennir a Chynllunio ar gyfer Newid Cwricwlwm, Sesiynau 2 a 3 (Castell Alun, Connah's Quay, Elfed, Argoed)	01/07/2021	Saesneg
Datblygu Gweledigaeth a Rennir a Chynllunio ar gyfer Newid Cwricwlwm, Sesiynau 2 a 3 (Ruabon, Grango, Darland)	01/07/2021	Saesneg
Datblygu Gweledigaeth a Rennir a Chynllunio ar gyfer Newid Cwricwlwm, Sesiynau 2 a 3 (St David's, Holywell, St Richard Gwyn)	01/07/2021	Saesneg
Datblygu Gweledigaeth a Rennir a Chynllunio ar gyfer Newid Cwricwlwm, Sesiynau 2 a 3 (Brynhyfryd, Dinas Bran & Ceiriog)	01/07/2021	Dwyieithog
Datblygu Deilliannau Effeithiol a Defnyddio'r Dilyniant Cymorth (Carfan 8)	01/07/2021	Saesneg
Datblygu Deilliannau Effeithiol a Defnyddio'r Dilyniant Cymorth (Carfan 8)	01/07/2021	Saesneg
Datblygu Deilliannau Effeithiol a Defnyddio'r Dilyniant Cymorth (Carfan 8)	06/07/2021	Saesneg
Datblygu Deilliannau Effeithiol a Defnyddio'r Dilyniant Cymorth (Carfan 8)	08/07/2021	Saesneg
Datblygu Deilliannau Effeithiol a Defnyddio'r Dilyniant Cymorth (Carfan 8)	08/07/2021	Saesneg
Nurture International: Mynediad at ddysgu i bawb	08/07/2021	Dwyieithog



Rhaglenni Datblygu Arweinyddiaeth Cenedlaethol



Rydym yn falch o rannu dyddiadau â chi ar gyfer carfanau nesaf y Rhaglenni Datblygu Arweinyddiaeth cenedlaethol.

Noder, yn benodol, lansiad ar **01/07/2021** o'r **Rhaglen Datblygu Darpar Benaethiaid – paratoi ar gyfer CPCP**. Rhydd hyn gyfle i ddarpar ymgeiswyr gychwyn ar eu gwaith paratoi. Cliciwch [yma](#) am fwy o wybodaeth am y broses ymgeisio. Trefnir sesiynau briffio ar gyfer darpar ymgeiswyr yn fuan yn nhymor yr hydref ac fe'ch cynghorir yn gryf i fynychu un o'r sesiynau hynny cyn ymgeisio.

Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth Ganol

Ceisiadau yn agor	14/09/2021
Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cais	erbyn 1yp ar 07/10/2021
Sesiwn rhagarweiniol ar gyfer ymgeiswyr llwyddiannus	w/c 29/11/2021
Rhaglen yn cychwyn	Ionawr 2022
Rhaglen yn gorffen	Rhagfyr 2022

Rhaglen Datblygu Uwch Arweinwyr

Ceisiadau yn agor	21/09/2021
Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cais	erbyn 1yp ar 14/10/2021
Sesiwn rhagarweiniol ar gyfer ymgeiswyr llwyddiannus	w/c 29/11/2021
Rhaglen yn cychwyn	Ionawr 2022
Rhaglen yn gorffen	Rhagfyr 2022

Rhaglen Datblygu Darpar Benaethiaid – paratoi ar gyfer CPCP

Lansio'r Rhaglen	01/07/2021
Sesiynau briffio ar gyfer darpar ymgeiswyr	Medi 2021
Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cais	erbyn 1yp ar 22/10/2021
Rhaglen yn cychwyn	Ionawr 2022
Ceisiadau ar gyfer Asesiad CPCP	Tachwedd 2022
Canolfan Asesu CPCP	Chwefror 2023

Cyfle cyffrous i Gynorthwywyr Addysgu newydd!

Mae'r **Rhaglen Ymsefydlu Cynorthwywyr Addysgu** i unigolion sydd newydd eu penodi i'r swydd. Cyflwynir y rhaglen genedlaethol hon ar lwyfan digidol. Bydd modd cwblhau'r hyfforddiant ar amser sydd yn gyfleus i'r cynorthwywyr ac i'w lleoliad. Am fwy o wybodaeth a manylion am sut i gofrestru, [cliciwch yma](#).



Newyddion a Gwybodaeth GwE

Gwaith Rhifedd gydag Ysgolion GwE wedi'i Gyhoeddi Mewn Cylchgrawn yn yr UD

Braf iawn oedd gweld deilliannau un o'n prosiectau gwella ysgolion cydweithredol yn cael eu cyhoeddi yn ddiweddar. Dros y blynnyddoedd diwethaf, mae GwE wedi bod yn gweithio gyda'r Sefydliad Cydweithredol er Ymchwil i Addysg, Tystiolaeth ac Effaith (CIEREI), Prifysgol Bangor, i helpu niferoedd helaeth o ysgolion GwE i ddefnyddio strategaeth fathemateg SAFMEDS, sef Say-All-Fast-Minute-Every-Day-Shuffled. Dr Kaydee Owen sydd wedi bod yn arwain ar y gwaith hwn i GwE dros y blynnyddoedd diwethaf, yn darparu hyfforddiant a chymorth gwerthfawr i lawer o ysgolion GwE. Mae strategaeth SAFMEDS bellach yn rhan greiddiol o'n cymorth Cyflymu Sgiliau a mathemateg i ysgolion. Hyfryd oedd clywed fod gwaith ymchwil SAFMEDS Kaydee wedi'i gyhoeddi yr wythnos ddiwethaf mewn cyfnodolyn addysg blaenllaw yn yr UDA, sef *Journal of Research on Educational Effectiveness*. Hoffem hefyd gydnabod y 63 ysgol yng Ngogledd Cymru a fu'n cymryd rhan yn y treial hwn a'n helpu ni i weld sut y gallwn wella ansawdd y cymorth gweithredu parhaus er mwyn gwella deilliannau disgyblion. Mae'r strategaeth hon yn rhan o'n cyfres ehangach o brosiectau rhifedd a darllen rhwng GwE a CIEREI, sydd yn ceisio cefnogi system ysgol sy'n fwy o blaid defnyddio tystiolaeth.

Gallwch ddarllen am y gwaith drwy ddilyn y [ddolen hon](#) aiff â chi at y papur

Recriwtio Aseswyr o'r Sector Uwchradd ac Arbennig ar gyfer Statws CALU [Cynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch]

Mae GwE yn chwilio am ymarferwyr **o'r sector uwchradd ac arbennig** i ymuno â'r tîm sydd ynghlwm wrth y Rhaglen Asesu Cynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch (CALU).

Fel aseswr byddwch yn gyfrifol am asesu ymgeiswyr sydd wedi cwblhau'r Rhaglen Darpar CALU ac sydd yn mynd ymlaen i gael eu hasesu ar gyfer statws CALU.

Am fwy o wybodaeth a manylion ymgeisio, [cliciwch yma](#).

Ymunwch â Rhaglen Arbenigol Addysgwyr Arloesol Microsoft (MIE) 2021/2022

Ydych chi'n athro sy'n ceisio dod o hyd i ffyrdd newydd o ennyn diddordeb eich dysgwyr drwy ddefnyddio technoleg? Os hoffech chi gysylltu â chymuned ddysgu broffesiynol fyd-eang o addysgwyr eraill yn union fel chi sy'n gwthio ffiniau'r ystafell ddosbarth yna byddai Microsoft yn hoffi'ch cael chi'n rhan o'r gymuned Arbenigwyr Arloesol Microsoft (Microsoft Innovative Expert Community). Maent yn chwilio am addysgwyr hunan-ysgogol sy'n angerddol am addysgu a dysgu, sy'n ysbrydoli dysgwyr drwy feddwl yn greadigol, ac yn gweithio mewn ysbryd gwirioneddol gydweithredol i rannu eu profiadau â'r byd.

Y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais i ddod yn 'MIE Expert' eleni yw 15 Gorffennaf. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Kellie Goodall drwy anfon e-bost i goodallk10@hwbcymru.net neu [cliciwch yma](#) am fwy o wybodaeth.



Dyfodol Byd-Eang GwE: leithoedd Rhyngwladol

CYFLEOEDD HYFFORDDI AR GYFER ATHRAWON YSGOLION CYNRADD

Prifysgol Agored 2021-2022

Rydym yn ffodus dros ben i fod mewn sefyllfa i gynnig **cyfle i athrawon cynradd ddysgu iaith ryngwladol, a chael hyfforddiant i gyflwyno ieithoedd mewn ysgolion cynradd** drwy'r Brifysgol Agored.

Ariennir y cwrs yn llawn gan Ddyfodol Byd-eang GwE.

Os oes gennych chi, neu un o'ch cyd-weithwyr yn yr ysgol, ddiddordeb mewn cofrestru ar y cwrs, cysylltwch â

stephanieelliswilliams@gwegogledd.cymru

Rhaglen Iaith a Llythrennedd (RILL)

HELPU EICH DYSGWYR I FOD YN DDARLLENWYR MWY RHUGL

Cofrestrwch yma ar gyfer y rhaglen ddarllen a deall atodol bwrpasol newydd ar gyfer dysgwyr CA2, sydd ar gael nawr ar gyfer pob ysgol ledled y rhanbarth. Wedi'i dylunio a'i darparu mewn cydweithrediad rhwng GwE, Prifysgol Bangor a CIERI, bydd cofrestru i fod yn rhan o'r rhaglen hon yn rhoi mynediad i chi i adnoddau am ddim, hyfforddiant llawn a chefnogaeth ddilynol. Mae'r cais ar sail y cyntaf i'r felin. Y dyddiadau hyfforddi cyntaf sydd ar gael yw w/c 28 Mehefin 2021, felly brysiwch a chliciwch ar y dolenni canlynol i gael [mwy o wybodaeth, ac/neu i gofrestru](#).

Helpu eich dysgwyr i fod yn ddarllenwyr mwy rhugl



Remote Instruction in Language and Literacy
www.rillresearch.org
Rhaglen atodol ar gyfer 'darllen' a 'darllen a deall', sy'n seiliedig ar dystiolaeth



Pecyn sy'n seiliedig ar dystiolaeth i dargedu datblygiad darllen dysgwyr



Fideos hyfforddiant a chanllawiau ar 'sut i...'

Canllawiau ar sut i fynd at adnoddau o'u deffnyddio.



Mae RILL yn becyn hyfforddiant cyflawn sy'n canolbwyntio ar egwyddorion 'darllen' a 'darllen a deall', er mwyn dysgu yn y dosbarth ac/neu o'r cartref

Yn cafnogi plant 7 i 10 oed

Am fwy o wybodaeth ac i gadw lle ar ein hyfforddiant RILL yn rhydd ym Haf neu'r Hydref, gallwch sganio'r cod QR neu glicio ar y ddolen isod:
<https://sway.office.com/gmG7pCS1GAwnkwDc?ref=Link>



Gwella Rhuglder Darllen Disgyblion:

STRATEGAETHAU DARLLEN AILADRODDOL A GEIRIAU AMLDER UCHEL

Dyma ddwy strategaeth adeiladu rhuglder ar sail tystiolaeth a ddyluniwyd ac a gyflwynwyd mewn cydweithrediad rhwng GwE ac arbenigwyr darllen o'r Sefydliad Cydweithredol ar gyfer Ymchwil, Tystiolaeth ac Effaith Addysg (CIEREI), Prifysgol Bangor i helpu dysgwyr yn CA2 a CA3 sydd eisoes â sgiliau datgodiog da ond sydd angen gwella eu rhuglder darllen er mwyn gwella eu sgiliau deall. Mae hwn yn adnodd rhad ac am ddim sydd ar gael i bob ysgol ledled y rhanbarth ac mae'n dod gyda hyfforddiant a chefnogaeth lawn, ar sail y cyntaf i'r felin, gyda dyddiadau hyfforddi ar gael o'r tymor hwn ac i dymor yr hydref 2021. [Cliciwch yma](#) i gael mwy o wybodaeth, ac/neu i wneud cais drwy ddilyn y ddolen isod.

Gwella rhuglder darllen disgyblion



Strategaethau Darllen Ailadroddol a Geiriau Amllder Uchel Mae deunyddiau rhuglder, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, bellach ar gael yn Gymraeg a Saesneg



Technegau i ddatblygu rhuglder yw'r rhain, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, i helpu disgyblion wella'u sgiliau darllen mewn Gymraeg a Saesneg. Maent yn addas i ddysgwyr sydd â sgiliau datgodiog da ond sydd angen gwella eu rhuglder wrth ddarllen.



Mae'r deunyddiau yn addas i ddysgwyr Cyfnod Allweddol 2 hyd at ben isaf Cyfnod Allweddol 3. Ymchwilwyr darllen ac awduron arbenigol sydd wedi creu'r deunyddiau.



Bydd GwE yn darparu fideos hyfforddiant ac adnoddau i ysgolion, a chynhyrgwr ar weithredu hefyd.

Canllawiau ar sut i fynd at adnoddau o'u deffnyddio.

Am fwy o wybodaeth ac i wneud cais:

<https://forms.office.com/r/yzNzpzyYf6>

Ebost:

Dr. Emily Roberts-Tyler

readingfluency@bangor.ac.uk

Helpu Eich Plentyn i Ddysgu gyda Mike Gershon

Mae Helpu Eich Plentyn i Ddysgu gyda Mike Gershon yn gyfres o glipiau fideo, canllawiau a thaflenni, sy'n datgloi cyfrinachau dysgu, gan roi'r offer, y syniadau a'r strategaethau sydd eu hangen ar rieni i helpu eu plant i ddysgu, tyfu a ffynnu.

Mae'r adnodd dwyieithog hwn ar gael yn rhad ac am ddim, i rieni plant oed cynradd ar draws y rhanbarth. Mae'r fideo rhagarweiniol a chodau arbennig ar gael gan YCG eich ysgol.

Helpu Eich Plentyn i Ddysgu gyda Mike Gershon



Rhaglen Feistr Genedlaethol Newydd

YM MHRIFYSGOL BANGOR

75 o lefydd wedi cael eu hariannu yn llawn ar y rhaglen MA Genedlaethol newydd ym Mhrifysgol Bangor, yn cychwyn ym mis Medi 2021. Croesewir ceisiadau rŵan!

A oes gennych chi ddiddordeb mewn bod yn rhan o'r buddsoddiad mwyaf gan Lywodraeth Cymru mewn addysg broffesiynol i athrawon ar ddechrau gyrfa? Ydych chi'n awyddus i ychwanegu at eich gwybodaeth broffesiynol, ymwneud ag ymchwil a gwella eich ymarfer proffesiynol fel athro ar lefel Meistr?

Mae'r MA Addysg (Cymru) yn rhaglen wirioneddol drawsnewidiol ac arloesol ar gyfer athrawon ar ddechrau gyrfa (rhwng blwyddyn 3 a 6) yng Nghymru. Mae gennym 75 o lefydd wedi'u hariannu'u llawn yn yr Ysgol Gwyddorau Addysg, Prifysgol Bangor. Bydd 25 o'r llefydd hynny ar gael yn benodol i ysgolion partneriaeth CaBan Bangor / CIEREI.


Mae'r rhaglen unigryw hon wedi cael ei datblygu ar y cyd rhwng 7 prifysgol ledled Cymru a phanel o arbenigwyr addysg rhyngwladol. Dyma'r rhaglen MA Addysg Genedlaethol gyntaf i gael ei darparu yn llwyr trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

Trwy ddilyn y rhaglen byddwch yn ychwanegu at eich sgiliau arwain, yn annog awtonomi proffesiynol a chryfhau barn broffesiynol ym mhob cyd-destun a sefyllfa. Bydd y pwyslais ar arfer yn arwain at ymarferwyr addysgol a fydd yn gweithredu'n foesebol, yn datblygu sgiliau beirniadol mewn ymchwil ac ymarfer ac yn cydweithio ac yn ymateb mewn modd arloesol i heriau.

Bydd y dysgu yn gyfuniad o weithgareddau ar lein cydamserol ac anghydamserol, yr asesiadau yn aseiniadau seiliedig ar y rhaglen a'r holl gwrs wedi'i gynllunio i gyd-fynd â chyd-destun ac amserlen waith athrawon amser llawn.

Am fwy o wybodaeth am gynnwys y rhaglen, y gofynion mynediad a'r cymelliannau ariannol posibl, [cliciwch yma](#).

Newyddion a tia Gwella Ysgolion



Gwybodaeth Consor- Rhanbarthol

Rhaglen Bartneriaeth Lles ac Iechyd Meddwl Mind Cymru

Ar y cyd â Mind Cymru, bydd y pedwar consortia addysg rhanbarthol yn hwyluso cyfle i ddysgu'n broffesiynol (yn rhithiol, yn y Gymraeg a'r Saesneg) o fis Medi 2021:

Sesiwn Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl - targedir pob clwstwr ar draws y rhanbarth

Sesiwn 3 awr i godi ymwybyddiaeth o iechyd meddwl. Cyflwynir i grwpiau o 16 aelod a rhoddir pecyn i'r aelodau fynd o'r sesiwn efo nhw. Rydym yn targedu un neu ddau unigolyn o bob clwstwr ar draws y rhanbarth. Mae'r sesiwn yn addas i holl staff y clwstwr. Er hynny, byddai'r aelodau yn dod yn Bencampwyr y Rhaglen Bartneriaeth Les, yn cyfarfod â'r Tîm Lles ddwywaith y flwyddyn ac yn gyfrwng i ddatblygu'r rhaglen, adnoddau cyfathrebu a ffynonellau cymorth i'w rhannu yn eu clwstwr eu hunain.

Mind - Rheoli Iechyd Meddwl yn y Gwaith a Chefnogi Staff

Sesiwn 3 awr, wedi'i hwyluso, a bydd pecyn ar gael i'w roi i ddysgwyr. Cyflwynir i grwpiau o 16 aelod, yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r sesiwn rhithiol hwn yn targedu **Aelodau Uwch Dimau Arwain Ysgolion/Lleoliadau a'r ALI**. Byddai'r rhaglen hon yn cael ei harfarnu ac yn cael ei chynnal i fwy o aelodau, yn dibynnu ar y sylwadau cychwynnol.

Ceir rhagor o fanylion am y 2 sesiwn [yma](#).

Mae Sefydlu ANG yng Nghymru yn newid...

DYLAI POB YSGOL FOD YN BAROD YM MIS MEDI 2021 AR GYFER ANG

[Cliciwch yma](#) i weld y camau sy'n rhaid i bob ysgol eu dilyn er mwyn sefydlu ANG o fis Medi 2021 ymlaen.

Am ragor o fanylion, cysylltwch â jeuanjones@gwegogledd.cymru



Gwybodaeth ac arweiniad Llywodraeth Cymru

SECONDIAD: Cynghorydd Proffesiynol - Ysgolion ac Awdurdodau Lleol [Cydlunydd Cenedlaethol PISA 2022]

Dymuna Llywodraeth Cymru dynnu eich sylw at gyfle am secondiad newydd: Cynghorydd Proffesiynol – Ysgolion ac Awdurdodau Lleol (Cydlunydd Cenedlaethol PISA 2022). [Cliciwch yma](#) am fanylion llawn y secondiad.

Bwriedir i'r secondiad gychwyn cyn gynted ag y bo modd, ac am ddwy flynedd o'r dyddiad cychwyn.

Dylai unrhyw un sydd am fynegi diddordeb yn y cyfle hwn anfon e-bost at Huw.Owen@llyw.cymru, gyda llythyr yn nodi eu diddordeb ac yn amlinellu eu profiadau a'u cymwysterau ar gyfer y rôl. Ni ddylai'r llythyr fod yn ddim mwy na 500 gair.

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw **5yp ddydd lau 15 Gorffennaf 2021**.

Diwygiadau cwricwlwm ac asesu. Arolwg: paratodau ar gyfer 2022

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu cwmni Arad a'r Brifysgol Agored yng Nghymru i gynnal arolwg ar baratodau ysgolion a lleoliadau eraill ar gyfer gweithredu'r diwygiadau cwricwlwm ac asesu. Mae'r [arolwg](#) wedi'i anelu at benaethiaid, uwch-reolwyr ac ymarferwyr mewn ysgolion a lleoliadau nas gynhelir sy'n darparu addysg. Bydd ymatebion yn cael eu defnyddio gan Lywodraeth Cymru i adnabod y gefnogaeth sydd ei hangen i sicrhau bod ysgolion yn barod ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm newydd o 2022. Arolwg 10-15 munud yw hwn a'r dyddiad cau yw **16 Gorffennaf 2021**. [Cliciwch yma](#) i gymryd rhan.

Cynhadledd Rithiol E-sgol

DYDD MERCHER, 7 GORFFENNAF 2021

Dysgwch fwy am e-sgol, sut mae ysgolion yn datblygu diwylliant dysgu cyfunol, siaradwyr MIEE, gwybodaeth am ddefnyddio Google Classroom a diweddariadau Hwb. [Cliciwch yma](#) am ragor o fanylion.

Ysbrydoli, Ysgogi, Ymgysylltu

Cynhadledd Dysgu Cyfunol

Inspire, Motivate, Engage

Blended Learning Conference

Ymgynghoriadau ar ganllawiau ychwanegol Cwricwlwm i Gymru

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae ymarferwyr a rhanddeiliaid eraill wedi bod yn gweithio i gyd-lunio'r ychwanegiadau penodol i ganllawiau'r cwricwlwm a nodwyd ym mis Ionawr 2020. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi bod yn paratoi Codau drafft yn unol â gofynion Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021.

Maent yn gofyn am eich adborth ar y drafftiau hyn erbyn **16 Gorffennaf** fel rhan o'r broses barhaus o ddatblygu ar y cyd. Bydd y gweithgorau ymarferwyr yn defnyddio eich sylwadau i helpu i fireinio'r drafftiau, cyn i ganllawiau Cwricwlwm i Gymru gael eu diweddaru ar-lein yn yr Hydref. Ceir dolenni i'r dogfennau ymgynghori a'r ffurflenni ymateb [yma](#).

Gwybodaeth a Chanllawiau gan Eraill

Dewch yn Gydymaith yr Academi

CEISIADAU AR AGOR!

Rydym yn chwilio am 15 o uwch arweinwyr o bob rhan o Gymru sy'n gweithio mewn Ysgolion (Penaethiaid), Gwaith Ieuenctid (Uwch Arweinwyr) ac Ôl-16 (Uwch Arweinwyr) i ymuno â'r garfan nesaf o Gymdeithion yr Academi Arweinyddiaeth.

DYDDIAD CAU: 9 Gorffennaf 2021 - 12:00 [hanner dydd]

Rhagor o fanylion ar gael [yma](#).



Academi Genedlaethol ar gyfer
Arweinyddiaeth Addysgol Cymru
National Academy for
Educational Leadership Wales



Arolwg Ysgolion - Addysg Gerddoriaeth



Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio datblygu cynigion ar gyfer darpariaeth gerddoriaeth, a fydd yn datblygu canfyddiadau ac argymhellion yr 'Adolygiad o'r Celfyddydau mewn Addysg' (2013), yr adroddiad 'Taro'r Tant' (Mehefin 2018), a'r 'Astudiaeth Ddichonoldeb Gwasanaethau Cerddoriaeth: Adroddiad Terfynol' (Ionawr 2020). Byddem yn gwerthfawrogi adborth ar y ffordd orau o ddarparu addysg gerddoriaeth yn y dyfodol er mwyn cefnogi dysgwyr a dylanwadu arnynt i fanteisio ar brofiadau cerddorol o safon uchel ac ennill y sgiliau i wireddu eu potensial yn y cwricwlwm newydd. Bydd yr wybodaeth a gesglir yn cael ei chadw'n gyfrinachol gan Lywodraeth Cymru a'i defnyddio i lywio cynigion ar gyfer addysg gerddoriaeth mewn ysgolion a lleoliadau, gan gynnwys opsiynau ôl-16.

Dilynwch y [ddolen hon](#) i gael mynediad at yr arolwg. Y dyddiad cau yw **16 Gorffennaf 2021**.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cynllunio ac Addysgu Dinasyddiaeth a Gwleidyddiaeth Wrth Gynnal Didueddrwydd Athrawon



📅 DYDD IAU, 8 GORFFENNAF 2021 ⌚ 16:00-17:30

Beth ydych chi'n ei wneud pan fydd dysgwr yn datgan cefnogaeth i theori cynllwyn yn y dosbarth? Sut ddylech chi reoli trafodaethau ar faterion gwleidyddol sensitif wrth addysgu?

Mae'r Gymdeithas Addysgu Dinasyddiaeth (ACT) yn falch o gynnal y sesiwn dysgu proffesiynol rhyngweithiol hwn ar ran Llywodraeth Cymru i gefnogi ymarferwyr sy'n dysgu Dinasyddiaeth a Gwleidyddiaeth. Bydd y sesiwn yn edrych ar senarios a allai godi yn ein hystafelloedd dosbarth yn ogystal â chynllunio i gefnogi Cwricwlwm i Gymru 2022. Bydd y weminar hon yn cael ei recordio a'i defnyddio fel adnodd dysgu proffesiynol i gefnogi addysgu'r maes hwn.

Cofrestrwch trwy ddilyn y ddolen i Zoom: <https://zoom.us/join/zoom/register/tJEsd--pqTovGtEUMXtX9uuJDrEgEbKgkWz2>



Cynhadledd Athrawon Ffiseg Gogledd Cymru - Bangor 2021



Eleni eto, cynhelir Cynhadledd Athrawon Ffiseg Gogledd Cymru ar-lein. Bydd sesiynau bob nos rhwng dydd Llun 5 Gorffennaf a dydd Gwener 9 Gorffennaf rhwng 6pm ac 8pm.

Mae croeso mawr i unrhyw un sydd â diddordeb mewn dysgu Ffiseg ymuno â ni ar gyfer y gweithdai a'r sgysiau rhad ac am ddim hyn. Bydd y sesiynau yn cynnwys Ffiseg yn y Ffilmiau, Ffiseg Isaac, Camsyniadau mewn Ffiseg, Cyflwyniad i'r Labordai Cenedlaethol a Rhaglen Ymgysylltu â'r Cyhoedd STFC a mwyr.

Yn ogystal, ddydd Iau bydd digwyddiad arbennig iawn, Dathlu Athrawon mewn partneriaeth â Phrifysgol Birmingham.

Cofrestrwch drwy Eventbrite:

<https://www.eventbrite.co.uk/e/bangor-physics-teachers-conference-online-2021-tickets-156006374265>

IOP Institute of Physics

Y Cliciadur / Clic-It Cymru

Mae rhifyn diweddaraf yr e-bapur newydd dwyieithog Y Cliciadur/Clic-It Cymru ar gael ar safwe HWB. [Cliciwch yma](#).

Er mwyn helpu i ddatblygu'r Cliciadur, a fydddech cystal â rhoi adborth yn yr [holiadur yma](#).

Arolwg Ysgolion Uwchradd y Rhwydwaith Hydref 2021

Yn nhymor yr hydref 2021, mae cyfle i'ch ysgol ymgymryd ag arolwg y Rhwydwaith, yn rhad ac am ddim, i gael data amhrisiadwy ar iechyd a lles i'w ddefnyddio yn hunanwerthusiad yr ysgol. Bydd y data'n helpu i ddeall effeithiau parhaus Covid 19 a chefnogi amrywiaeth o flaenoriaethau addysgol, fel y Dull Ysgol Gyfan ar gyfer Iechyd Meddwl a'r Cwricwlwm i Gymru.

Bydd digwyddiadau rhithwir yn cael eu cynnal ym mis Mehefin i helpu arweinwyr iechyd a lles i baratoi. Bydd modd cofrestru ar gyfer yr arolwg ym mis Gorffennaf.

[Cliciwch yma](#) am fanylion pellach.

Unrhyw ymholiadau? Cysylltwch â'r tîm ar: shrn@caerdydd.ac.uk



Newyddlen Gwyddoniaeth Gynradd Tymor yr Haf

[Cliciwch yma](#) i ddarllen y fersiwn diweddaraf o'r newyddlen gan y *Primary Science Teaching Trust* i ysgolion GWE.

Cyrsiau Ar-Lein Am Ddim i Rieni: Dyddiadau Olaf ar gyfer Tymor Yma

HELPWCH EICH PLENTYN I DDARLLEN

Cwrs byr ar-lein i rieni a gofalwyr plant Cyfnod Sylfaen neu blant sydd ar fin dechrau'r ysgol.

Bydd y cwrs ar-lein hwn yn helpu rhieni a gofalwyr plant blynyddoedd cynnar i feithrin hyder mewn technegau sylfaenol a gweithgareddau hwyliog er mwyn annog eu plentyn i ddysgu darllen.

Dyddiadau a dolenni i gofrestru ar gael [yma](#).

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu mae arnoch angen taflenni i'w hanfon at rieni, anfonwch e-bost

jane.watkins@adultlearning.wales



Ymgynghoriad CWRE

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ymgynghoriad er mwyn canfod barn rhanddeiliaid ar y canllawiau i gefnogi ysgolion i gynllunio profiadau sy'n gysylltiedig â gyrfaedd a gwaith (CWRE) yn eu cwricwlwm ar gyfer pob dysgwr 3 i 16 oed.

[Ymgynghoriad CWRE](#)

Dyddiad cau yr ymgynghoriad yw 16 Gorffennaf, 2021

I fynegi eich barn am y canllawiau CWRE ewch i'r ddolen isod:

<https://llyw.cymru/canllawiau-cwricwlwm-i-gymru-ynghylch-profiadau-syn-gysylltiedig-gyrfaedd-gwaith-cwre>

[Gweithdai adborth CWRE \(TEAMS\)](#)

Mae Llywodraeth Cymru yn chwilio am randdeiliaid i gymryd rhan mewn gweithdai er mwyn trafod eu barn am CWRE.

I gymryd rhan yn y gweithdai, anfonwch e-bost at: nick.morgan@miller-research.co.uk

GWEITHDY	DYDDIAD					GRŴP DARGED
4	Dydd Iau		01.07.2021		16:00-17:30	Ysgolion prif ffrwd ac arbennig – ffocws ar yr uwchradd
5	Dydd Mawrth		06.07.2021		14:00-15:30	Ysgolion prif ffrwd ac arbennig – ffocws ar unedau cyfeirio a darparwyr EOTAS eraill
6	Dydd Iau		08.07.2021		16:00-17:30	Pawb – gweithdy i ddal barn pob grŵp targed

BAC / THS - Adnoddau Newydd

Y cyntaf o adnoddau #DysguProffesiynol i gefnogi addysgu addysg dinasyddiaeth a gwleidyddiaeth. [Cliciwch yma](#).

Gweithgareddau rhyngweithiol, fideos, animeiddiadau a llawer mwy. Adnoddau dinasyddiaeth fyd-eang a gwleidyddiaeth newydd i gefnogi dysgu ac addysgu'r Dystysgrif Her Sgiliau Cenedlaethol/Sylfaen.

Rhagor o fanylion ar gael [yma](#).

Cynhadledd Addysg Technocamps 2021: Ymgysylltu â'r Digidol

DYDD IAU, 4 TACHWEDD 2021 - 13:30-18:00 - STADIWM LIBERTY, ABERTAWE

Mae Technocamps yn cynnal eu Cynhadledd Addysg 2021 ddydd Iau, 4 Tachwedd.

Y nod yw dod ag addysgwyr digidol Cymru ynghyd i rannu arferion gorau, rhoi gwybod am y newidiadau cwricwlwm diweddaraf a hyrwyddo'r gefnogaeth sydd ar gael.

Cynhelir y digwyddiad rhad ac am ddim hwn yn Stadiwm Liberty, Abertawe a'i ffrydio'n fyw i'r rhai sy'n methu â mynychu.

Bydd sgrysiâu yn berthnasol i addysgwyr ysgolion cynradd ac uwchradd.

[Cliciwch yma](#) am ragor o fanylion ac i gofrestru.



post@gwegogledd.cymru

